

Sunday 10<sup>th</sup> May 2026  
+ The Sixth Sunday of Easter

The collect of the day

God our redeemer, you have delivered us from the power of darkness and brought us into the kingdom of your Son : grant, that as by his death he has recalled us to life, so by his continual presence in us he may raise us to eternal joy; through Jesus Christ your Son our Lord, who is alive and reigns with you and the Holy Spirit, one God, now and for ever. AMEN

The reading from Acts  
(17.22-31)

Paul stood in front of the Areopagus and said, ‘Athenians, I see how extremely religious you are in every way. For as I went through the city and looked carefully at the objects of your worship, I found among them an altar with the inscription, “To an unknown god.” What therefore you worship as unknown, this I proclaim to you.

‘The God who made the world and everything in it, he who is Lord of heaven and earth, does not live in shrines made by human hands, nor is he served by human hands, as though he needed anything, since he himself gives to all mortals life and breath and all things. From one ancestor he made all nations to inhabit the whole earth, and he allotted the times of their existence and the boundaries of the places where they would live, so that they would search for God and perhaps grope for him and find him — though indeed he is not far from each one of us. For “In him we live and move and have our being”; as even some of your own poets have said, “For we too are his offspring.”

‘Since we are God’s offspring, we ought not to think that the deity is like

gold, or silver, or stone, an image formed by the art and imagination of mortals. While God has overlooked the times of human ignorance, now he commands all people everywhere to repent, because he has fixed a day on which he will have the world judged in righteousness by a man whom he has appointed, and of this he has given assurance to all by raising him from the dead.’

The Psalm  
(66.7-18)

Bless our God, / O you / peoples:  
make the voice of his / praise / to be /  
heard, Who holds our / souls in / life: and  
suffers / not our / feet to / slip.

For you, O / God, have / proved us:  
you have / tried us as / silver is / tried.  
You brought us / into the / snare: you laid  
heavy / burdens up/on our / backs.

You let enemies ride over our heads;  
we went through / fire and / water: but  
you brought us out / into a / place of /  
liberty.

I will come into your house with burnt  
offerings \* and will / pay you my / vows:  
which my lips uttered \* and my mouth  
promised / when I / was in / trouble. I will  
offer you fat burnt sacrifices with the /  
smoke of / rams: I will / sacrifice / oxen  
and / goats.

Come and listen, all you who / fear /  
God: and I will tell you what / he has /  
done for my / soul. I called out to him /  
with my / mouth: and his / praise was / on  
my / tongue. If I had nursed evil / in my /  
heart: the / Lord would / not have / heard  
me,

But in truth / God has / heard me: he  
has / heeded the / voice • of my / prayer.  
Blessed be God, who has not / rejected my  
/ prayer: nor withheld his / loving / mercy  
/ from me.

The reading from 1 Peter  
(3.13-22)

Who will harm you if you are eager to do what is good? But even if you do suffer for doing what is right, you are blessed. Do not fear what they fear, and do not be intimidated, but in your hearts sanctify Christ as Lord.

Always be ready to make your defence to anyone who demands from you an account of the hope that is in you; yet do it with gentleness and reverence.

Keep your conscience clear, so that, when you are maligned, those who abuse you for your good conduct in Christ may be put to shame. For it is better to suffer for doing good, if suffering should be God’s will, than to suffer for doing evil.

For Christ also suffered for sins once for all, the righteous for the unrighteous, in order to bring you to God. He was put to death in the flesh, but made alive in the spirit, in which also he went and made a proclamation to the spirits in prison, who in former times did not obey, when God waited patiently in the days of Noah, during the building of the ark, in which a few, that is, eight people, were saved through water.

And baptism, which this prefigured, now saves you — not as a removal of dirt from the body, but as an appeal to God for a good conscience, through the resurrection of Jesus Christ, who has gone into heaven and is at the right hand of God, with angels, authorities, and powers made subject to him.

The reading from the Gospel according to Saint John  
(14.15-21)

Jesus said to his disciples: ‘If you love me, you will keep my commandments. And I will ask the Father, and he will give you another Advocate, to be with you for

ever. This is the Spirit of truth, whom the world cannot receive, because it neither sees him nor knows him. You know him, because he abides with you, and he will be in you.

‘I will not leave you orphaned; I am coming to you. In a little while the world will no longer see me, but you will see me; because I live, you also will live. On that day you will know that I am in my Father, and you in me, and I in you. They who have my commandments and keep them are those who love me; and those who love me will be loved by my Father, and I will love them and reveal myself to them.’

The collect following communion

Bountiful God, your Son Jesus Christ gives the water of eternal life : may we thirst for you, the spring of life and source of goodness, through him who is alive and reigns, now and for ever. AMEN



Dydd Sul 10<sup>fed</sup> Mai 2026

+ Chweched Sul y Pasg

### Colect y dydd

O Dduw ein hiachawdwr, gwaredaist ni rhag galluoedd y tywyllwch a'n dwyn i deyrnas dy Fab : caniatâ iddo ef a'n galwodd ni'n ôl i fywyd trwy ei angau, ein cyfodi i lawenydd tragwyddol trwy ei bresenoldeb parhaus ynom ni; trwy Iesu Grist dy Fab ein Harglwydd, sy'n fyw ac yn teyrnasu gyda thi a'r Ysbryd Glân, yn un Duw, yn awr ac am byth. AMEN

### Darlleniad o Actau

(17.22-31)

Safodd Paul yng nghanol yr Areopagus, ac meddai: "Bobl Athen, yr wyf yn gweld ar bob llaw eich bod yn dra chrefyddgar. Oherwydd wrth fynd o gwmpas ac edrych ar eich pethau cysegredig, cefais yn eu plith allor ac arni'n ysgrifenedig, 'I Dduw nid adwaenir'. Yr hyn, ynteu, yr ydych chi'n ei addoli heb ei adnabod, dyna'r hyn yr wyf fi'n ei gyhoeddi i chi.

"Y Duw a wnaeth y byd a phopeth sydd ynddo, nid yw ef, ac yntau'n Arglwydd nef a daear, yn preswyllo mewn temlau o waith llaw. Ni wasanaethir ef chwaith â dwylo dynol, fel pe bai arno angen rhywbeth, gan mai ef ei hun sy'n rhoi i bawb fywyd ac anadl a'r cwbl oll. Gwnaeth ef hefyd o un dyn yr holl genhedloedd, i breswyllo ar holl wyneb y ddaear, gan osod cyfnodau penodedig a therfynau eu preswylfod. Yr oeddent i geisio Duw, yn y gobaith y gallent rywfodd ymbalfalu amdano a'i ddarganfod; ac eto nid yw ef nepell oddi wrth yr un ohonom. 'Oherwydd ynddo ef yr ydym yn byw ac yn symud ac yn bod', fel, yn wir, y dywedodd rhai o'ch beirdd

chwi: 'Canys ei hiliogaeth ef hefyd ydym ni.'

"Os ydym ni, felly, yn hiliogaeth Duw, ni ddylem dybio fod y Duwdod yn debyg i aur neu arian neu faen, gwaith nadd celfyddyd a dychymyg dyn. Edrychodd Duw heibio, yn wir, i amserau anwybodaeth; ond yn awr y mae'n gorchymyn i bawb ym mhob man edifarhau, oblegid gosododd ddiwrnod pryd y bydd yn barnu'r byd mewn cyfiawnder, trwy ŵr a benododd, ac fe roes sicrwydd o hyn i bawb trwy ei atgyfodi ef oddi wrth y meirw."

### Y Salm

(66.7-18)

Bendithiwch ein Duw, O bobloedd, a seiniwch ei fawl yn glywadwy. Ef a roes le i ni ymysg y byw, ac ni adawodd i'n troed lithro.

Oherwydd buost yn ein profi, O Dduw, ac yn ein coethi fel arian. Dygaist ni i'r rhwyd, rhoist rwymau amdanom,

gadewaist i ddyinion farchogaeth dros ein pennau, aethom trwy dân a dyfroedd; ond dygaist ni allan i ryddid. Dof i'th deml â phoethoffrymau, talaf i ti fy addunedau,

a wneuthum â'm gwefusau ac a lefarodd fy ngenau pan oedd yn gyfyng arnaf. Aberthaf i ti basgedigion yn boethoffrymau, a hefyd hyrddod yn aroglarth; darparaf ychen a bychod geifr.

Dewch i wrando, chwi oll sy'n ofni Duw, ac adroddaf yr hyn a wnaeth Duw i mi. Gwaeddais arno â'm genau, ac yr oedd moliant ar fy nhafod. Pe bawn wedi coleddu drygioni yn fy nghalon, ni fuasai'r Arglwydd wedi gwrando;

ond yn wir, gwrandawodd Duw, a rhoes sylw i lef fy ngweddi. Bendigedig fyddo Duw am na throdd fy ngweddi oddi wrtho, na'i ffyddlondeb oddi wrthyf.

### Darlleniad o 1 Pedr

(3.13-22)

Felly, pwy a wna niwed ichwi os byddwch yn selog tros ddaioni? Ond hyd yn oed pe digwyddai ichwi ddiodeff o achos cyfiawnder, gwyn eich byd! Peidiwch â'u hofni hwy, a pheidiwch â chymryd eich tarfu, ond sancteiddiwch Grist yn Arglwydd yn eich calonnau.

Byddwch yn barod bob amser i roi ateb i bob un fydd yn ceisio gennych gyfrif am y gobaith sydd ynoch. Ond gwnewch hynny gydag addfwynder a pharchedig ofn, gan gadw eich cydwybod yn lân; ac yna, lle'r ydych yn awr yn cael eich sarhau, fe godir cywilydd ar y rhai sy'n dilorni eich ymarweddiad da yng Nghrist. Oherwydd gwell yw diodeff, os dyna ewyllys Duw, am wneud da nag am wneud drwg.

Oherwydd diodeffodd Crist yntau un waith am byth dros bechodau, y cyfiawn dros yr anghyfiawn, i'ch dwyn chi at Dduw. Er ei roi i farwolaeth o ran y cnawd, fe'i gwnaed yn fyw o ran yr ysbryd, ac felly yr aeth a chyhoeddi ei genadwri i'r ysbrydion yng ngharchar. Yr oedd y rheini wedi bod yn anufudd gynt, pan oedd Duw yn ei amynedd yn dal i ddisgwyl, yn nyddiau Noa ac adeiladu'r arch.

Yn yr arch fe achubwyd ychydig, sef wyth enaid, trwy ddŵr, ac y mae'r hyn sy'n cyfateb i hynny, sef bedydd, yn eich achub chi yn awr, nid fel modd i fwrw ymaith fudreddi'r cnawd, ond fel ernes o gydwybod dda tuag at Dduw, trwy atgyfodiad Iesu Grist. Y mae ef, ar ôl mynd i mewn i'r nef, ar ddeheulaw Duw, a'r angylion a'r awdurdodau a'r galluoedd wedi eu darostwng iddo.

### Gwrandewch Efengyl yn ôl Sant Ioan

(14.15-21)

"Os ydych yn fy ngharu i, fe gadwch fy ngorchmynion i. Ac fe ofynnaf finnau i'm

Tad, ac fe rydd ef i chi Eiriolwr arall i fod gyda chi am byth, Ysbryd y Gwirionedd. Ni all y byd ei dderbyn ef, am nad yw'r byd yn ei weld nac yn ei adnabod ef; yr ydych chi yn ei adnabod, oherwydd gyda chi y mae'n aros ac ynoch chi y bydd.

Ni adawaf chi'n amddifad; fe ddof yn ôl atoch chi. Ymhen ychydig amser, ni bydd y byd yn fy ngweld i ddim mwy, ond byddwch chi'n fy ngweld, fy mod yn fyw; a byw fyddwch chiwithau hefyd. Yn y dydd hwnnw byddwch chi'n gwybod fy mod i yn fy Nhad, a'ch bod chi yn ofn fi, a minnau ynoch chiwithau. Pwy bynnag y mae fy ngorchmynion i ganddo, ac sy'n eu cadw hwy, yw'r un sy'n fy ngharu i. A'r un sy'n fy ngharu i, fe'i cerir gan fy Nhad, a byddaf finnau yn ei garu, ac yn famlygu fy hun iddo."

### Defynddir gweddi ôl-ynghyd

O Dduw haelionus, dy Fab Iesu Grist sy'n rhoi dŵr y bywyd tragwyddol : bydded i ni sychedu amdanat ti, ffynnon bywyd a ffynhonnell daioni, trwyddo ef sy'n fyw ac yn teyrnasu, yn awr a hyd byth. AMEN

